# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Dalgylch Dolgellau.




CYNGOR GWYNEDD

# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **9** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol yn Nalgylch Dolgellau gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.





NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU'N IAU
16 - 24 OED
25 - 34 OED
35 - 44 OED
45 - 54 OED
55 - 64 OED
65 - 74 OED
75 - 84 OED
85+ OED
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
43
93
380
581
859
890
525
144
22
146
0
200
400
600
800
1000


YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000





BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500

BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Dalgylch Dolgellau


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Dalgylch Dolgellau


3.2 Derbyniwyd **273** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Dalgylch Dolgellau










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
77
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
85
DARLLEN CYMRAEG
63
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
54
DDIM YN DEALL CYMRAEG
77
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
44
0
10
20
30
40
50
60
70
80
90



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
68
SAESNEG
62
ALBANAIDD
1
PRYDEINIG
75
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
19
ARALL:
6
0
10
20
30
40
50
60
70
80


BETH YW EICH HIL?
GWYN
238
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
1
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
1
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
32
ARALL:
1
0
50
100
150
200
250


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
123
2
1
64
63
20
0
20
40
60
80
100
120
140


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW
DEURYWIOL
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
212
2
2
44
2
0
50
100
150
200
250


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
4
236
23
0
50
100
150
200
250


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
30
218
25
0
50
100
150
200
250

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Dalgylch Dolgellau

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Nalgylch Dolgellau.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Dolgellau | **93** |
| • Fairbourne | **35** |
| • Corris | **23** |
| • Dinas Mawddwy | **20** |
| • Arthog | **19** |
| • Brithdir | **15** |
| • Llanelltyd | **12** |
| • Rhydymain | **9** |
| • Llanfachreth | **8** |
| • Arall: | **8** |
| • Aberangell | **7** |
| • Mallwyd | **7** |
| • Ganllwyd | **6** |
| • Bont Ddu | **5** |
| • Friog | **4** |
| • Llanymawddwy | **1** |
| • Penmaenpool | **1** |

# 5 Beth sy'n dda am Ddalgych Dolgellau?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Dolgellau. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Dolgellau i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Ddalgych Dolgellau?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **236** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **181** |
| • Hanes a threftadaeth yr ardal | **141** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | **136** |
| • Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon | **104** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | **92** |
| • Lle da i fagu teulu | **90** |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai lleol | **88** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **39** |
| • Darpariaeth addysg ac ysgolion da | **23** |
| • Gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol | **22** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus da | **21** |
| • Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth sy'n bodoli'n lleol | **6** |
| • Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc yn lleol | **4** |

5.2 Mewn ymateb i'r **cwestiwn 'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Ddalgylch Dolgellau sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **60** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Dolgellau. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (n=16); Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (n=13); Mae'n ardal ddiogel (n=5).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd yn dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Agosrwydd at wahanol lefydd eraill e.e. Y Bermo, Porthmadog, | **4** |
| • Gallu'r ardal i elwa o dwristiaeth er budd y gymuned leol. | **4** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Nolgellau. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

5.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Ddalgylch Dolgellau?

6.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Dolgellau. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Dolgellau i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd <u>ddim mor dda</u> am Ddalgylch Dolgellau?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **129** |
| • Dim cyfleoedd i gadw pobl ifanc yn y fro | **126** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal | **123** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **110** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **109** |
| • Mae’r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **101** |
| • Mae pryder am gyflwr ffyrdd, thraffig a pharcio mewn nifer o leoliadau | **72** |
| • Is-adeiladaeth band eang | **71** |
| • Canfyddiad nad yw’r heddlu’n ddigon gweledol yn yr ardal | **62** |
| • Mynediad / hygyrchedd pentref Fairbourne i'r traeth | **54** |
| • Dim digon o bwyntiau gwefru ceir | **52** |
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **51** |
| • Pellter daearyddol o bob man | **49** |
| • Adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael | **29** |
| • Newidiadau o fewn y ddarpariaeth addysg leol | **24** |
| • Diffyg twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal | **20** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am yr ardal sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **118** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Dolgellau. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal (n=11); Pryder am ffyrdd, thraffig a pharcio mewn nifer o leoliadau (n=10); Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem, gyda phwyslais ar faw ci (n=8); Diffyg adnoddau a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc (n=8); Pryderon ynghylch diffyg mynediad addas i'r traeth yn Fairbourne (n=5); Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Canfyddiad o ddiffyg cydlyniad mewn rhai cymunedau. | **6** |
| • Pryderon ynghylch ail-gartrefi a thai haf. | **6** |
| • Diffyg archfarchnad fforddiadwy e.e. Aldi, Lidl ac ati. | **5** |
| • Diffyg llwybrau beicio a cherdded addas mewn ambell i ardal. | **5** |
| • Pryderon am eiddo gwag a diffyg cynnal a chadw adeiladau mewn rhai llefydd. | **4** |
| • Pryderon am ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn rhai llefydd. | **3** |
| • Dim pwll nofio agos. | **3** |
| • Pryderon am ddiffyg gwybodaeth ynghylch dyfodol Fairbourne. | **3** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Nolgellau. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

6.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn nalgylch Dolgellau dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Dolgellau. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Dolgellau i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn nalgylch Dolgellau dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi? | Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis |
|---|---|
| • Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | **137** |
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **104** |
| • Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gwerth uchel | **102** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu | **94** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **90** |
| • Cynlluniau i barchu a mwynhau amgylchedd yr ardal | **81** |
| • Uwchraddio is-adeiladaeth band eang | **75** |
| • Cynlluniau i ddatblygu'r sector cynhyrchu bwyd yn lleol | **58** |
| • Cynlluniau i wneud gwell defnydd o adeiladau cyhoeddus a Swyddfeydd Penarlâg yn Nolgellau | **55** |
| • Cynlluniau i daclo tlodi | **54** |
| • Angen darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus werdd e.e Bysus trydan | **52** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith | **48** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth | **37** |
| • Cynlluniau i ddatblygu atomfa yn Nhrawsfynydd / safle atomfa Trawsfynydd | **35** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **89** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Dolgellau. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol (n=7); Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cynlluniau i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal. | **6** |
| • Gwella darpariaeth ar gyfer twristiaid e.e. canolfan gwybodaeth mewn rhai llefydd. | **6** |
| • Fairbourne - Gwella mynediad i'r traeth yn ogystal â mwy o sicrwydd o ran ddyfodol y pentref. | **6** |
| • Cynlluniau i ddatblygu mwy o weithgareddau a chyfleon i bobl ifanc. | **5** |
| • Datblygu llwybrau cerdded a beicio addas e.e. yr hen lein rhwng Dolgellau a'r Bala. | **5** |
| • Edrych ar y drefn parcio a system ffordd mewn ambell i ardal e.e. canol tref Dolgellau. | **4** |
| • Ceisio dannu archfarchnadoedd ffforddiadwy i'r ardal. | **4** |
| • Sylwadau ar y gyfundrefn cynllunio | **4** |
| • Mynd i'r afael ag eiddo gwag. | **3** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Nolgellau. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

7.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau dalgylch Dolgellau yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal dalgylch Dolgellau.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad 1

**Sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau – (15/6/22).**

## Beth sy'n dda am Ddalgylch Dolgellau?

- Llefydd i fynd am dro a llwybrau da e.e. Mawddach a'r Marian.
- Cyfleon i gymdeithasu e.e. Merched y wawr, Capel ac Eglwys, sesiynau cadw'n heini
- Mae'n ardal glan a thaclus.
- Siopau da e.e. fferyllfa a siop gig.
- Farchnad pob dydd Iau.
- Bwytai da.
- Clybiau Pêl-droed, rygbi a chriced.
- Coleg ac ysgolion da.
- Banciau dal ar agor (Dolgellau).
- Garej petrol a gwerthu ceir.
- Swyddfa bost.
- Starbucks.
- Stesion ambiwlans a tân.
- Llyfrgell.
- Gwerthwyr tai.
- Milfeddyg.
- Meddygfa ac ysbytai da.
- Bysiau yn mynd i Wrecsam ac Aberystwyth.

## Beth sydd ddim yn dda am Ddalgylch Dolgellau?

- A+E wedi cau ers COVID – Alltwen yn bell i ffwrdd.
- Siopau bwyd yn ddrud – bysa hi'n dda cael Lidl neu Aldi yma.
- Bysiau ddim yn mynd i Borthmadog digon aml er mwyn mynd i siopa bwyd. Dim bws i Landudno ddim mwy, angen gyrru i Flaenau Ffestiniog i ddal bws/trên.
- Agor y bowling green – angen torri gwair.
- Buasai cael pwll nofio yn dda i'r ardal.
- Biniau yn cael eu methu mewn llefydd gwledig weithiau.
- Anodd cael apwyntiad deintydd.
- Canfyddiad bod yr heddlu ddim yn ddigon gweledol yn yr ardal.

# Atodiad B

**Sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen ar gyfer Dalgylch Dolgellau**

## Beth ydach chi yn hoffi am eich ardal?

- Yr amgylchedd naturiol.

## Beth ydach chi ddim yn hoffi am eich ardal?

- Ymdeimlad o gor-dwristiaeth yn yr ardal.
- Dim digon o lwybrau a phalmentydd (Bontddu.)

## Beth ydach chi eisiau gweld yn digwydd yn eich ardal i neud o yn lle gwych i fyw?

- Mwy i doiledau cyhoeddus.
- Mwy o lefydd parcio.

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000